tafod elái

MEDI 2019

Rhif 340

Pris 80c

Dringo Kilimanjaro

Llongyfarchiadau i Mark Morgan a'i fab, Rhys, o Feisgyn ar ddringo mynydd Kilimanjaro ym mis Gorffennaf. Drwy gyfraniadau eu ffrindiau mae Mark a Rhys wedi codi dros £1,700 tuag at Ymddiriedolaeth Cystic Fibrosis.

Eisteddfod Llanrwst 2019

Eilir Owen Griffiths, enillodd wobr Arweinydd Corawl yr Ŵyl gyda'i blant Aaron a Gwenni



Iestyn Gwyn Jones, enillydd y Llefaru Unigol 12 - 16 oed.

Llongyfarchiadau i bawb gymerodd ran yn Eisteddfod Llanrwst. Roedd hi'n wythnos arbennig er gwaethaf y tywydd. Dyma rai o'r canlyniadau -

Llefaru Unigol 12 ac o dan 16 oed: 1af Iestyn Gwyn Jones.

Dawns Stepio Unigol i Fechgyn o dan 18 oed; 2il Morus Caradog Jones

Côr i rai 60 oed a throsodd 1af Côr Hen Nodiant

Dawns Stepio Unigol i Fechgyn 18 oed a throsodd 1af Daniel Calan Jones

Deuawd, Triawd neu Bedwarawd Stepio: 3ydd Daniel a Morus

Cystadleuaeth Tlws Coffa Lois Blake 1af Dawnswyr Nantgarw.

Dawns Stepio i Grŵp: 2il Dawnswyr Nantgarw.

Tlws Arweinydd Corawl yr Ŵyl er cof am Sioned James: Eilir Owen Griffiths, Côr CF1. Côr yr Ŵyl: Côr CF1.

Pencampwyr Llangollen

Grŵp Acapela Ysgol Gynradd Garth Olwg ddaeth yn gyntaf yn Eisteddfod Llangollen. Llongyfarchiadau hefyd i'r côr ar eu perfformiad.

Parti Ponty @ Garth Olwg

Roedd Canolfan Garth Olwg yn fwrlwm o weithgareddau Parti Ponty ar Gorffennaf 13eg. I ddiddanu daeth corau o ysgolion yr ardal, ynghyd a'r band Iwcs a sêr y byd pop yn cynnwys Mei Gwynedd ac Elin Fflur. Llongyfarchiadau i griw Menter Iaith am drefnu diwrnod arbennig i ddathlu ein Cymreictod.

Dawnswyr Nantgarw

EFAIL ISAF

Gohebydd Lleol:
Loreen Williams

Llongyfarchiadau
Llongyfarchiadau gwresog i Eleri, merch Alun a Bethan Roberts, Parc Nant Celyn ar dderbyn gradd Dosbarth Cyntaf mewn Cerddoriaeth a Chymraeg o Brifysgol Caerdydd. Bydd Eleri'n dychwelyd i'r Coleg ym mis Medi i astudio ar gyfer Gradd Meistr yn y Gymraeg.

Parti Ponty
Bu Parti Ponty yn llwyddiant ysgubol unwaith eto eleni a'r dathlu wedi symud y tro hwn i Gampws Garth Olwg. Diolch o galon i Einir Siôn a Heulyn Rees a'u criw o weithwyr brwd am drefnu'r arlwy.

Dathlu Priodas Aur
Llongyfarchiadau i Judith a John Llewelyn Thomas, Parc Nant Celyn a fu'n dathlu eu priodas aur yn ystod mis Awst.

Gwellhad Buan
Da clywed fod Pat Edmunds wedi dod adre wedi cyfnod hir yn yr ysbyty. Mae'n dal yn fregus ond dymunwn wellhad buan a llwyr iddi.

Priodas
Llongyfarchiadau i Ffion ac Owain Llŷr ar eu priodas yng Nghapel y Tabernacl ddydd Iau, Awst 15fed. Merch hynaf Geraint a Caroline Rees, Penywaun yw Ffion ac Owain yn fab i Dewi ac Eleri Jones Cricieth. Edrychai Ffion yn hyfryd mewn gwisg laes o sidan lliw ifori, ac roedd y morwynion, Gwenno Rees, Leah Rees, Brengain Rhys, Elin Llŷr a Holly Tooze hwythau mewn gwisgoedd hardd o liw glaslwyd. Y ddwy chwaer Eiri Gwen ac Efa Grug oedd y morwynion bach. Y gwas priodas oedd Dyfan Dwyfor, ffrind bore oes i Owain. Y tywyswyr oedd Simon Davies, Idan Williams, a Josh Hayman.

Croesawyd y gynulleidfa i'r capel gan y delynores Ruth Hicks. Gweinyddwyd y gwasanaeth priodasol gan Y parchedig Eirian Rees, tad-cu Ffion a chafwyd gweddi a chyflwyniad pwrpasol gan dad-cu arall Ffion, Colin Sowter. Yr organydd oedd D. Carey Williams ac fe ganodd Awen Rhys yr emyn "Calon Lân". Darllenodd Elin Llŷr, chwaer Owain gerdd i'r cwpwl ifanc gan ei thad. Mwynhawyd y wledd briodasol yng Ngwesty'r Winllan y Llannerch.

Mae Owain yn gweithio yn Adran Chwaraeon y BBC a Ffion yn gweithio fel rheolwr cyfrifon i gwmni cysylltiadau cyhoeddus Working Word yng Nghaerdydd.

Y TABERNACL
Llongyfarchiadau
Dymuniadau gorau i Varion Gapper, Llanilltud Faerdref ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn yn ystod mis Gorffennaf.

Dathlu 50
Dathlodd pedwar cwpwl o'r Tabernacl eu Priodas Aur yn ystod mis Gorffennaf a mis Awst eleni. Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Ann Dwynwen ac Emlyn Davies, Judith a John Llywelyn Thomas, Eleri a Gwilym Huws a Sara a Geraint Wyn Davies. Ymlaen yn awr at y 60!

Ymddeol
Dymunwn yn dda i Gareth Humphreys, Y Padog, Pentre'r Eglwys ar ei ymddeoliad o'i swydd yn athro yn Ysgol Gyfun Gymraeg Garth Olwg. Cyfle nawr i ymlacio ac i dreulio amser gyda'r ddwy wyres fach yn Efail Isaf.

Bedyddio yn y Tabernacl

Cafwyd Oedfa hyfryd yn Y Tabernacl fore Sul yr 21 o Orffennaf. Bedyddiwyd tri o blant bach yn yr eglwys ac roedd yn braf gweld aelodau'r ddau deulu yn dal dwylo yn hapus yn ystod y bedydd. Mab Sioned a Rhys Hughes, Parc Nant Celyn yw Hari ac roedd tad Sioned, y diweddar Geraint Stanley Jones wedi eu godi yn yr eglwys a'i thaid Y Parchedig Stanley Jones yn Weinidog yn y Tabernacl ddechrau'r ganrif ddiwethaf.

Plant bach Eurgain Haf ac Ioan Thomas yw Cian Harri a Lois Rhodd. Mae Eurgain yn gweithio gydag Elusen Achub y Plant ac Ioan yntau'n Ddirprwy Brifathro yn Ysgol Gymraeg Abercynon. Gweinyddwyd y bedyddiadau yn feistrolgar a chynnes yn ôl ei harfer gan Jane Eryl Jones. Bore cofiadwy iawn yn Y Tabernacl.

Dymuniadau Gorau
Estynnwn ein dymuniadau gorau i Edwyn Evans a fu'n derbyn triniaeth yn yr ysbyty yn ystod mis Gorffennaf.

Peintio'r Ganolfan
Pan fydd yr Ysgol Sul, y Corau a'r Cymdeithasau'n ail gyfarfod ym mis Medi bydd yr adeilad yn "sgleinio" wedi cael cot o baent yn ystod gwyliau'r Haf.

Merched y Tabernacl
Ar ôl egwyl fach adeg gwyliau mis Awst fe fydd aelodau Merched y Tabernacl yn cyfarfod yng Ngwesty Gwinllan Llanerch am goffi fore Iau, Medi 5ed, am 10:30 y bore. Dewch yn llu i rannu hanes eich gwyliau.

Trefn yr Oedfaon ar gyfer mis Medi
Medi 1af Emlyn Davies
Medi 8fed Y Parchedig Aled Edwards
Medi 15fed Allan James
Medi 22ain Sul Teuluol o dan ofal Iwan Rowlands ac Wyn Jones
Medi 29ain Geraint Rees.

TONYREFAIL

Gohebydd Lleol:
Helen Prosser
671577/prosserh@btinternet.com

Llwyddiant mewn arholiadau
Llongyfarchiadau i Debbie, Jaqui a Gosia sy'n dod i'r Noson Sgwrsio yn Nhonyrefail ar eu canlyniadau gwych yn arholiad Defnyddio'r Gymraeg Canolradd. Da iawn ferched!

Datblygu Creigiau

Cynhaliwyd arddangosfa gan Ystad Castell y Mynach yng Nghreigiau sy'n dangos bwriad i adeiladu 650 o dai ar y tir rhwng y pentref a ffordd yr A4119, Llantrisant i Gaerdydd. Mae hyn yn ychwanegu yn sylweddol i'r adeiladu presennol sy'n digwydd ar y ffordd a fu, tan yn ddiweddar, yn gyswllt gwledig.

Oherwydd fod y tir yn rhan o ardal datblygu dinas Caerdydd mae'n amhosib gwrthwynebu'r cais ond mae trigolion lleol am leihau'r effaith ar bentref Creigiau. Maent am i bob mynediad i'r datblygiad ddod o'r brif-ffordd, am weld buddsoddiadau yn strwythur y pentref i wella'r ysgol a parciau chwarae ac am gadw'r coed a diogelu amgylchedd yr ardal.

CREIGIAU

Gohebydd Lleol:
Nia Williams
colin.williams@talktalk.net

Graddedigion yr haf
Llongyfarchiadau mawr i'r tri ifanc, disglair yma enillodd eu graddau yr haf yma.

Tomos Angell raddiodd o Brifysgol Lerpwl, gyda gradd mewn Rheoli Busnes, ac a fydd yn bwrw mlaen i astudio cwrs meistr nôl yn Lerpwl, mewn Busnes Rhyngwladol, yn yr hydref.

Gwenllian Roberts sy' wedi ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Ffarmacoleg Meddygol o Brifysgol Caerdydd. Bydd Gwenllian yn troi am Fangor ym mis Medi i barhau gyda'i hastudiaethau meddygol - cwrs sy'n cael ei redeg ar y cyd rhwng Prifysgolion Caerdydd a Bangor.

Aron Môn - sicrhaodd radd dosbarth cyntaf mewn Gwleidyddiaeth Rhyngwladol a Hanes o Brifysgol Aberystwyth. Yn ogystal, gwnaeth Aron ennill tlws J. Mervin Williams - am y canlyniadau gorau yn yr Adran Gwleidyddiaeth Rhyngwladol, trwy gyfrwng y Gymraeg. Gobaith Aron yw parhau gyda'i astudiaethau a gweithio tuag at Radd Meistr.

Pob dymuniad da i bob un ohonoch. Os methais gynnwys rhai o'n myfyrwyr disglair - plîs, anfonwch air cyn y rhifyn nesa!

Cydymdeimlo
Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf i'r Dr David Knight a'r teulu oll ar golli ei gymar annwyl, Alison. Brwydrodd Alison yn ddewr a di-rwgnach am sawl blwyddyn, yn siriol hyd y diwedd. Cafodd angladd hollol breifat yn ôl dymuniad y teulu ddechrau'r haf ac fe gynhelir gwasanaeth i ddiolch am fywyd Alison am 11.15 bore Mercher y 18fed o Fedi yng Nghanada Lodge, Creigiau.

Pob lwc!
I bawb oedd yn aros am ganlyniadau arholiadau yr haf hwn - gobeithio'n wir eich bod wedi derbyn newyddion da!

Aberhenfelen
'Drama gerdd wreiddiol gan Sara Anest, Elan Grug Muse a Mared Llywelyn'.
Cwmni Theatr Ieuenctid Genedlaethol yr Urdd dan adain Cwmni Theatr Bara Caws oedd yn cyflwyno'r Sioe wych hon! Dim ond pedwar perfformiad fu - dau yn y Galeri, Caernarfon a dau yn Yr Atrium, Caerdydd. Sioe gwbwl wych! Sgript slic a chlyfar - cynhyrchu arbennig iawn a pherfformiadau hynod broffesiynol gan yr holl gast. Yn eu plith - ein Iestyn Gwyn Jones ni - oedd yn amlwg wrth ei fodd yn rhan o'r criw. Llongyfarchiadau anferthol i bob un oedd yn rhan o'r cynhyrchiad.

Stori Elina
Disgybl 6ed dosbarth yn Ysgol Plasmawr yw Elina Thomas-Jones ac mae'n dipyn o anturiaethwr! Toc wedi i'w harholiadau orffen, i ffwrdd â hi i deithio! Ar ben ei hunan bach! Dyma ei hadroddiad hi o'r trip!
Diverbo, Pueblo Ingles, 13.7.19 - 28.7.19
Cyrraedd Madrid, ac aros noson mewn gwesty cyn teithio 6 awr ar fws y diwrnod canlynol i Las Salegas, ymhell o bob man, i fyny yn y mynyddoedd. Amcan y trip ydoedd aros gyda rhyw 30 o 'Sbaenwyr' oedd yn awyddus i wella eu sgiliau Saesneg! Deuai'r rhain o bob man! Y Swistir, Cymru, Iwerddon, Canada, Ynysoedd y Cayman ac UDA. Ie, pob man! Bob dydd byddem yn dilyn amserlen - gan daflu ein hunain i mewn i'r gweithgareddau amrywiol. Weithiau mewn grwpiau, dro arall un i un. Yna pan ddeuai'r pnawn - *siesta* bach i nofio, chwarae ar yr astroturf a chymdeithasu. Ron ni'n 'byw' mewn 'tai', yn gymysgedd o Saeson a 'Sbaenwyr'. Roedd modd ennill pwyntiau ar gyfer ein 'tai' wrth wirfoddoli mhellach - rhedeg y 'warm-up' er enghraifft, helpu gyda threfnu'r gweithgareddau, dysgu chydig o Gymraeg i'r 'Sbaenwyr'! Bues i'n canu 'Calon Lân' yn y Sioe Dalent! Gwnes i lawer iawn o ffrindiau da dros y cyfnod, teimlo ein bod yn rhan o deulu mawr erbyn y diwedd. Felly fel y gallwch ddychmygu, roedd na lawer iawn o ddagrau wrth adael. Ar ddiwedd y pythefnos roedd un noson arall ym Madrid a'r bore ola roedd rhaid codi am 5.30 er mwyn ffarwelio â phawb, cyfnewid cyfeiriadau a threfnu cwrdd eto mor fuan â phosib.

Elina Thomas-Jones

Arddangosfa Arbennig Crochendy Nantgarw

I ddathlu 200 mlynedd ers i William Billingsley gynhyrchu crochenwaith yn Nantgarw mae rhai o ddarnau mwyaf cain crochendy Nantgarw yn dychwelyd i'r man lle'u crewyd 200 mlynedd yn ôl. Agorwyd yr Arddangosfa yn y Crochendy ar 13eg Gorffennaf ac mae'n parhau hyd 28ed Medi. Mae'r arddangosfa yn cynnwys eitemau ar fenthyg o Amgueddfa Cymru yngyd â darnau o gasgliadau preifat a chyhoeddus eraill. Nid yw'r rhan fwyaf o'r eitemau wedi eu harddangos o'r blaen ac fe ddaeth yn bosib drwy Rhaglen Benthyg Weston a Chronfa'r Celfyddydau sy'n galluogi amgueddfeydd bach a rhanbarthol i fenthyg gwaith o gasgliadau cenedlaethol.

Mae'r Arddangosfa ar agor o ddydd Mercher i ddyd Sul. Pris mynediad: £2.50.

Dydd Sadwrn 14 Medi am 2yp bydd Dr Eurwyn William yn rhoi sgwrs ar Hanes Crochendy Nantgarw o 1813 hyd at heddiw. www.nantgarwcw.org.uk

Her yr Wyddfa er cof am Gwyn

Mae mab yn trefnu her yr Wyddfa i Macmillan er cof am ei dad, y newyddiadurwr a'r hanesydd Gwyn Griffiths, i ddiolch i'r elusen am gefnogi ei deulu. Bu farw'r awdur, y cyfieithydd a'r hanesydd arobryn Gwyn, a oedd yn byw ym Mhontypridd, ym mis Ebrill y llynedd yn 77 mlwydd oed ychydig fisoedd ar ôl cael diagnosis o ganser na allai gael ei wella.

Er cof amdano, mae Gildas, un o bedwar o blant Gwyn, yn trefnu sialens yr Wyddfa Gyda'r Nos ar 25 Ebrill 2020, a dawns yng Ngwesty Copthorne Caerdydd ar 19 Mehefin 2020.

Bydd y ddau ddigwyddiad yn codi arian ar gyfer Cymorth Canser Macmillan. "Roedd fy nhad yn ddyn ysbrydoledig, yn dad anhygoel, yn ŵr, yn hanesydd, yn newyddiadurwr ac yn gyswllt hanfodol rhwng Cymru a Llydaw."

I gymryd rhan yn her Gildas, ewch i www.snowdonbynight20.com neu rhowch rodd yn www.justgiving.com/snowdonbynight

PENTYRCH

Gohebydd Lleol:
Marian Wynne

Taith i Went
Dan arweiniad gwybodus a difyr Frank Olding aeth llond bws o Glwb y Dwrlyn i ddarganfod cyfoeth arbennig de-ddwyrain Gwent - ei safleoedd Rhufeinig. Caerllion neu Isca oedd y man cychwyn - pencadlys ail leng Augustus wrth iddynt geisio rheoli'r Silwriaid byr a ffyrnig. Os taw cerrig moel ac welydd isel sydd ar ôl, daeth Frank â'r cyfan yn fyw wrth ddisgrifio'r cyfnod Rhufeinig - y 6,000 yn yr amffitheatr, a'r amodau byw yn y barics - moethusrwydd ystafell y canwriad ond y milwyr cyffredin yn gorfod rhannu ystafell fach rhyngddynt fesul wyth. Profai'r baddonau pa mor wâr oedd bywyd y Rhufeiniaid er nad oedd pawb o aelodau Clwb y Dwrlyn yn meddwl llawer o'u tai bach cymunedol!

Venta Silurum neu Gaerwent oedd y gyrchfan nesa' - tref farchnad gaerog neu Civitas Rufeinig. Yma roedd hawl gan y Silwriaid brodorol i drefnu eu hunain er o dan gyfundrefn y Rhufeiniaid. Dyma un o'r enghreifftiau gorau o amddiffynfeydd tref Rufeinig ym Mhrydain.Yn wir hoff sylw Frank drwy gydol y daith oedd,"Dyma'r enghraifft orau yn Ewrop!" Yn sicr fe'n synnwyd gan hyd a maint y muriau ac olion y siopau, y deml a'r fforwm.

Tra yng Nghaerwent tynnodd Frank ein sylw at gysylltiadau beirdd megis Guto'r Glyn a Lewis Glyn Cothi â Bro Gwent drwy eu hymwneud ag uchelwyr yr ardal megis yr Herbertiaid. Soniodd hefyd am y modd y croniclid hen chwedlau a thraddodiadau ar ffurf cyfresi o 'drioedd,' gan adrodd rhai ohonynt .

Saib am bicnic ac yna troi am Lanfaches ac aros wrth yr eglwys yno lle sefydlwyd yr achos ymneilltuol cyntaf yng Nghymru yn 1639 gan William Wroth. Cafodd ei wahardd o'i swydd gan yr eglwys am iddo wrthod ufuddhau i'r ddeddf am chwaraeon ar y Sul. Yn ddiddorol, Cymry Cymraeg oedd y mwya' ffyrnig eu gwrthwynebiad i sefydlu'r achos.

Do. fe'n swynwyd gan yr olion ond y rhyfeddod mwya' oedd y stôr anhygoel o wybodaeth oedd gan Frank a'i allu di-hafal i gyfoethogi'r hanes drwy ei gyfeiriadau at farddoniaeth a chwedlau'r fro. Roedd y swper yn y Ship yng Nghaerllion yn glo teilwng i ddiwrnod arbennig. Diolch i Gill a Peter Griffiths unwaith eto am eu gwaith yn trefnu ac i Frank Olding am daith gofiadwy iawn.

Dyweddiad
Llongyfarchiadau i Catrin Rees,sydd bellach yn byw yng Nghilgwri, a Paul Walsh o Crosby ar eu dyweddiad. Fe wnaethant gyfarfod gynta' yng Ngholeg y Gyfraith yng Nghaer. Mae Catrin yn gyfreithwraig i'r Comisiwn Elusennau yn ei swyddfa yn Lerpwl ac mae Paul yn gyfreithiwr gyda chwmni o gyfreithwyr yn Lerpwl. Dymunwn yn dda i'r ddau.

Frank Olding yn tywys aelodau
Clwb y Dwrlyn

Priodas Aur
Llongyfarchiadau gwresog i Ann ac Emlyn Davies ar ddathlu eu priodas aur.

Cyngerdd Acapela
Llongyfarchiadau i Erin Jardine, wyres Morfydd a Gareth Huws ar ei pherfformiad safonol iawn ar y delyn yng nghyngerdd Elinor Bennett yn Acapela. Mae'n amlwg bod gyrfa gerddorol ddisglair o'i blaen.

Gerddi Pentyrch
Mae criw o wirfoddolwyr gweithgar iawn yn y pentref yn trefnu Gerddi Agored Pentyrch yn flynyddol ac eleni roedd y digwyddiad yn dathlu ei ben-blwydd yn ugain oed! Roedd prysurdeb mawr yn y pentref ar y penwythnos cyntaf ym mis Gorffennaf a phobl o bell ac agos – dros bum cant ohonyn nhw - wedi tyrru yma i ymweld â'r chwech ar hugain o erddi oedd yn agored i'r cyhoedd.

Does dim cystadleuaeth na gwobrau, dim ond cyfle i'r pentrefwyr sy'n mwynhau garddio groesawu ymwelwyr i edmygu ffrwyth eu llafur. Mae'r gerddi'n amrywio'n fawr o ran eu maint a'u cynlluniau ac mae cyfle hefyd i brynu planhigion ac i fwynhau lluniaeth yn neuadd y pentref.

Dros y blynyddoedd codwyd mwy na £68,500 sydd wedi'i ddefnyddio ar gyfer gwahanol brosiectau yn y pentref ac i gefnogi elusennau yn y gymuned. Eleni Ambiwlans Awyr Cymru oedd yn elwa o'r ymdrechion.

Penwythnos llwyddiannus iawn, yr haul yn gwenu a'r ymwelwyr yn werthfawrogol iawn.

Taith Hanes
Trefnwyd taith hanes o gwmpas y pentref gan y Cyngor Cymuned rai wythnosau'n ôl. Daeth criw da ynghyd ar y bore Sadwrn i gael eu tywys gan yr hanesydd lleol brwdfrydig Don Llewellyn gyda chymorth Ivor Betty. Roedd Don ar ei orau, yn llawn afiaith wrth rannu ei wybodaeth eang a dangos hen luniau o'r pentref. Cawsom ein tywys o Ben y Cwm, i Neuadd y Pentref, i lawr at yr ysgol, draw i'r Clwb Rygbi yna Capel Penuel, i lawr heibio safle hen ysgol y pentref tuag at Eglwys San Catwg, heibio Tafarn y King's ac yn ôl i'r Gofeb Ryfel.

Roedd pawb yn unfryd unfarn i'r daith fod yn llwyddiant – cyfle gwych i ddysgu am orffennol ein pentref a chymdeithasu ar yr un pryd. Mae galw eisoes am daith arall!

Cydymdeimlad
Estynnwn ein cydymdeimlad didwyll i Ruth Appleby a'r teulu, yn dilyn marwolaeth ei mam, Alison, wedi cystudd hir.

Clwb y Dwrlyn - Diolch
Hoffai cadeirydd Clwb y Dwrlyn, Eleri Jones, ddiolch i holl aelodau'r pwyllgor am eu gwaith yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Diolch yn arbennig i'r ysgrifennydd Rhodri-Gwynn Jones a 'r trysorydd Penri Williams am eu cyfraniad arbennig i lwyddiant y gymdeithas. Diolch hefyd i'r holl aelodau am eu cefnogaeth gyson i'r cyfarfodydd. Dymunwn yn dda i'r cadeirydd newydd, Guto Roberts.

Wrth i Eleri ddiolch i bawb arall, rhaid diolch iddi hithau hefyd am gyfnod llewyrchus iawn i Glwb y Dwrlyn o dan ei harweiniad brwdfrydig a graenus.

PONTYPRIDD

Gohebydd Lleol:
Jayne Rees

Clwb y Bont
Dewch i noson yng nghwmni Sera ac act gefnogol nos Sadwrn Medi 28ain. Mae Sera yn un o artistiaid Gorwelion BBC. Am fwy o fanylion cysylltwch â'r Clwb. Peidiwch ag anghofio am y cwis bob nos Fawrth am 8.00p.m.

Fe ddaeth yn amser i ail ymuno a'r Clwb . Mae aelodaeth 2019/2020 yn ddyledus nawr.£20 a £10 i'r di-waith. Fe fydd aelodau presennol yn derbyn eu ffurflenni ail ymaelodi ond os ydych am ymuno o'r newydd cysylltwch â Jayne (07968438314)

Diolch o galon
Mewn te prynhawn yn Yr Hen Lyfrgell, Porth dangosodd aelodau a swyddogion eu gwerthfawrogiad o ymroddiad Siân Cadifor i undeb UCAC dros y blynyddoedd. Buodd Siân yn Ysgrifennydd Sir Rhondda Cynon Taf a Merthyr ac yn aelod o Gyngor Cenedlaethol UCAC .

Ffrindiau Coedwig Graigwen
Ddechrau Gorffennaf lansiwyd apêl i godi arian i ddiogelu darn o dir pum erw a hanner uwchben stad o dai Graigwen. Yn 2018 gwerthwyd y goedwig unwaith eto mewn ocsiwn ac fe'i prynwyd gan unigolyn lleol. Bwriad yr ymgyrch nawr yw cynnig cyfranddaliadau i gefnogwyr er mwyn cyrraedd y targed i ad dalu yr unigolyn. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Friends of Graigwen Woods, 63, Lan Park Rd., Pontypridd neu 3, Whiterock Ave., Graigwen.

Merched y Wawr
Noson arbennig i gychwyn gweithgareddau'r hydref nos Iau Medi'r 12fed am 7.30p.m. yn Festri Capel Sardis. Dave Roberts, Caerffili yw'r gwestai yn son am ei brofiad ar raglen Ffit Cymru eleni. Dewch i fwynhau ychydig o gaws a gwin. Croeso i aelodau newydd ac i ddysgwyr

Alun Thomas, Graigwen yw'r gŵr gwadd mis Hydref. Mae Alun yn lais cyfarwydd fel cyflwynydd a gohebydd newyddion gyda'r BBC. Dewch i wrando ar ei sgwrs nos Iau, Hydref 10fed am 7.30p.m.

Cynlluniau Ysgolion Pontypridd

Mae rhieni ac ymgyrchwyr ym Mhontypridd yn siomedig iawn nad yw Cyngor Rhondda Cynon Taf yn fodlon ail-ystyried eu cynlluniau i gau Ysgol Pont Sion Norton a datblygu safle Ysgol Heol y Celyn yn ysgol Gymraeg. Mae'r rhieni yn galw am ddarpariaeth ysgol Gymraeg yn ardal gogledd Pontypridd sy'n gyfleu i blant Ynysybwl.

Medd y Cynghorydd Heledd Fychan "Mae'r Cyngor o'r farn ei fod yn dderbyniol i rhagor o blant a phobl ifanc deithio ymhellach i dderbyn addysg cyfrwng Cymraeg a darpariaeth chweched dosbarth. Dydw i ddim yn cefnogi'r cynlluniau."

Dymuniadau gorau
Pob hwyl a llongyfarchiadau i Eleri Griffiths ar gael ei hethol i Gyngor Sir Rhondda Cynon yn cynrychioli ward y Rhondda dros Blaid Cymru.

Clwb llyfre
Fe fydd y Clwb yn cwrdd nos Fawrth, Medi'r 10 fed am 5.30 p.m. yn y Trattoria, Tonysguboriau i drafod dewisiadau'r tymor dros bryd o fwyd!

Byddwn nôl yng Nghlwb y Bont nos Fawrth, Hydref 15 fed am 7.30p.m. i drafod un o gyfrolau buddugol yr Eisteddfod Genedlaethol. Beth am ymuno â ni i fynegi eich barn?

Pen-blwydd hapus a Bon Voyage
Mae Ed druan wedi hen fynd ond mae Geraint Todd wedi dathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar! Mae Geraint, Sera a'r bois, Llew a Bedwyr ar fin cychwyn ar antur fawr wrth iddynt fynd i deithio'r byd. Joiwch!

Croeso
Mae Rhydian Fitter a'i bartner Jay wedi symud o Abertawe yn ddiweddar i fyw yng Ngraigwen. Maent ar fin croesawu eu plentyn cyntaf i'r byd.(cawn yr hanes mis nesa') Mae Rhydian yn gweithio yng Nghaerdydd i Blaid Cymru.

Llongyfarchiadau
Pob dymuniad da i Mirain a'i gwr Matthew Sellick. Priodwyd y ddau ym mis Mai yn St. Tewdrics House, Casgwent. Mae Mirain yn ferch i Alun a Bethan Williams, Heol Tyfica, Pontypridd. Maent wedi ymgartrefu yn Nelson.

Cyfnod Newydd
Pob dymuniad da i Emma Smith, Meadow Farm, Llanilltud Faerdre wrth iddi gychwyn fel prifathrawes Ysgol Evan James. Hi yw'r pumed pennaeth parhaol ers i'r ysgol agor yn 1985.

Wynebu heriau wrth dyfu lan ar Pobol Y Cwm

Dydy Tomos West o Efail Isaf yn methu cofio ei fywyd heb iddo fod yn rhan o **Pobol Y Cwm**.

Ymunodd yr actor ifanc, sy'n chwarae rhan Ricky Jones, â chast yr opera sebon poblogaidd S4C nôl yn 2005 yn chwe blwydd oed. Mae'n 19 oed erbyn nawr ac yn rhan o stori fawr cyffrous iawn.

Dyma Tomos yn adrodd y stori: "Mae Ricky wedi mynd i barti Sioned yn y fflat uwch ben y siop. Mae Sioned wedi bod yn cymryd cyffuriau a thrwy ddamwain mae Ricky yn cymryd y cyffuriau gan feddwl mai rhywbeth i wella ei ben tost ydyn nhw.

"O dan ddylanwad y cyffuriau mae e'n dringo lan i do'r fflat. Mae Mathew yn ceisio cael e lawr ond mae Ricky yn cwympo ac yn glanio yng nghanol Stryd Fawr Cwmderi."

Dywedodd Tomos fod cymryd rhan mewn stori fawr wedi bod yn brofiad anhygoel iddo.

"Dwi heb wneud unrhyw beth fel hyn o'r blaen - roedd e'n rhywbeth hollol newydd i fi," meddai Tomos. "Roedd rhaid i fi a Mark (Stuart Roberts sy'n chwarae rhan Mathew) wneud 'nightshoot' saith awr o 9 y nos tan 5 y bore am ddwy noson. Roedd e'n *freezing* ond yn brofiad grêt."

Mae Tomos wedi gorfod delio gyda sawl stori ddwys dros y blynyddoedd - er enghraifft pan fuodd ei gariad Courtney farw mewn damwain car a hithau'n disgwyl ei fabi. Sut, felly, mae paratoi ar gyfer rhywbeth mor drasig a thorcalonnus?

"Gyda stori Courtney, dyma bryd teimlais i fod rhaid i mi ddechrau actio'n go iawn," meddai Tomos. "Pan o'n i'n iau, wi'n cofio mam yn dweud wrtha i i ddychmygu sut byddwn i fel person yn ymateb i sefyllfa ac oedd hyn yn helpu. Ond gyda rhywbeth mwy dwys mae rhaid ystyried sut bydd y cymeriad yn ymateb - mae rhaid meddwl mwy am y rôl. Mae'n grêt i gael fy nannedd mewn i stori."

Wrth gwrs, dyw Tomos ddim yn fodlon datgelu os yw Ricky'n goroesi - bydd rhaid gwylio Pobol y Cwm i ddarganfod ei dynged. Ond os yw'r cymeriad yn parhau i fod yn rhan o'r gyfres, sut fyddai Tomos yn hoffi gweld ei gymeriad yn datblygu?

"Wel, mae Ricky yn fachgen neis, diniwed - efallai rhy ddiniwed mewn ffordd. Os yw Ricky yn goroesi hoffwn i chwarae fe fel rhywun lot mwy *edgy*."

LLANTRISANT GROESFAEN MEISGYN

Gohebydd y mis: Margaret White

Grŵp Codi Arian Macmillan Pontyclun a'r Ardal

Mae wedi bod yn gyfnod prysur i'r grŵp. Trefnwyd y daith gerdded flynyddol ar gyfer dydd Sul 7fed o Orfennaf. Daeth dros 70 o gerddwyr, rhai pedair coes, i Ganolfan Hamden Llantrisant ar fore braf i gerdded 4 neu 8 milltir ar hyd y llwybr i Brynteg neu cyn belled ag Efail Isaf ac yn ôl. Rhaid diolch i reolwr a staff y ganolfan am eu cefnogaeth, cwmni NPS prif noddwyr y digwyddiad, cwmniau gyfrannodd fwyd a diod, y gwirfoddolwyr fu'n farsialiaid ar hyd y llwybr gan gydweithio gyda'r heddlu i sicrhau bod pawb yn ddiogel a neb yn mynd ar goll, a gorsaf radio lleol GTFM am ddarlledu yn fyw o'r pwynt dychwelyd wrth Stâd Brynteg. Hyd yn hyn mae dros £5000 wedi ei godi i'r elusen gyda rhagor o arian noddedig ar ei ffordd.



Aeth rhai o'r grŵp i gefnogi'r 'Ponty Plod' y Sul canlynol. Braf oedd cael cwmni Loretta Tompkinson, Maer Pontypridd ym mharc Ynys Angharad ar y daith gerdded ac i gasglu arian yn y bwcedi gwyrdd. Dyna £800+ arall yn y coffrau drwy ymdrechion tîm Pontypridd o wirfoddolwyr Macmillan.

Ymlaen wedyn i Llanulltud Fawr ar y 21ain i gartref Don a Ann Knight. Tu cefn i'r tŷ stád eitha cyffredin hwn mae yna ardd arbennig iawn. Mae Don a Ann wedi creu gardd dull Siapaneaidd anhygoel ac yn cefnogi Macmillan trwy agor yr ardd i'r cyhoedd gyda Don yn rhoi hanes ei angerdd am dyfu coed Bonsai wrth dywys ymwelwyr o amgylch yr ardd. Roedd aelodau o'r grŵp codi arian wedi paratoi amrywiaeth hyfryd o gacennau i'w gweini gyda 'paned i'r ymwelwyr ac fe godwyd £400 ar y diwrnod.

Rhaid llongyfarch ŵyres un o aelodau'r grŵp, Lowri Parsons. Mae Lowri wedi cael ei gwobrwyo am yr ail dro yn olynnol fel Pencampwr Ifanc Macmillan Cymru. Aeth Wayne Griffiths, Cadeirydd Fforwm Gwirfoddolwyr Cymru, i fore coffi Lowri yn ei chartref ym Mhenybont, i gyflwyno'r tystysgrif iddi ar ran yr elusen.

Merched Y Wawr, Cangen Tonysguboriau,

Mae'r tymor wedi dod i ben unwaith eto ac fe gawsom gyfle i fyfyrio ar ein blwyddyn dros 'baned yng nghaffi Cwrt Insole, Llandâf. Cymerodd rhai o'r aelodau'r gyfle i roi tro o amglych y tŷ hefyd tra yno.

Yn ystod y flwyddyn cawsom amrywiaeth dda o westeion i'n difyrru ac i enhangu'n gwybodaeth hefyd. Gyda mwy a mwy ohonom yn dod yn gyfarwydd gyda salwch dementia â chlefyd Alzheimer roeddem yn falch iawn fod Beti George wedi derbyn ein gwahoddiad i ddod atom i rannu ei phrofiadau personol hi gyda'r salwch. Siaradodd am brinder cefnogaeth i rai sy'n dioddef o'r salwch ac i'w gofalwyr. Mae hi'n parhau i ymgyrchu i godi ymwybyddiaeth o'r angen sydd i gael system gymorth ar waith i ddiwallu anghenion y nifer cynyddol o bobl sy'n gorfod dod i delerau â'r clefyd hwn. Cyflwynwyd siec gan aelodau'r gangen fel cyfraniad i'r ymchwil, sy'n cael ei wneud i dementia ym Mhrifysgol Abertawe.

Bydd ein cyfarfod cyntaf o dymor 2019-2020 nos Fercher 18fed o Fedi yn Y Pafilwn, Tonysguboriau pan byddwn yn cael tipyn o 'Frethyn Cartref' ar ôl cael cyfle i ymaelodi a gweld beth sydd ar y rhaglen am y flwyddyn.

Pen-blwydd arbennig

Llongyfarchiadau i Elen merch Andrea a Ceri Forest Hills ar ddathlu pen-blwydd arbennig iawn. Mae Elen adref ar wyliau o Abu Dhabi.

Taith Cymdeithas Gymraeg Llantrisant

Ddydd Sadwrn, Gorffennaf 6ed, teithiodd criw da o aelodau Cymdeithas Gymraeg Llantrisant, mewn bws i ardal Cwm Afan.

John Llew Thomas a Gwilym Treharne oedd arweinwyr y daith, ac roeddent wir wedi paratoi yn drwyadl iawn i roi gymaint o wybodaeth i ni am yr ardal a'r bobl oedd yn gysylltiedig a'r ardal. Ardal ddiwydiannol iawn oedd hon yn arfer bod, ond heddiw mae'r tipiau glo a haearn wedi diflannu ac yn eu lle mae gwyrddni a thyfiant iach coed a gwair a blodau ymhob man. Mae llawer iawn o bobl enwog wedi'u magu yn y Cwm yma hefyd ac mae olion diwylliant Cymreig cryf yn yr ardal, gyda nifer fawr o gapeli mawr iawn o bob enwad yma. Mae'n debyg bod 80% o'r boblogaeth yn y Cwm yn siaradwyr Cymraeg pan oedd y diwydiannau ar eu hanterth.

I ddechrau'r daith aethom i ymweld â'r ardal ger y môr yn Aberafan, a chael cipolwg ar y traeth bendigedig sydd yno nawr, a heibio y gwaith dur lle bu cymaint o bobl yn gweithio. Roedd llongau enfawr yn mynd a dod i'r ardal hon ar un amser. Sandfields oedd yr enw ar yr ardal yma yn wreiddiol ond cafodd ei ddinistrio gan y gwastraff o'r gweithfeydd. Cliriwyd y gwastraff a nawr mae llawer o dai ac ysgolion newydd wedi'u hadeiladu yno. Gwelsom adeilad yr YMCA lle cafodd Richard Walter Jenkins (Richard Burton) ei hyfforddi gan ei athro Saesneg, Mr Burton, a dyna pam y cymerodd e y cyfenw hwnnw pan aeth i fyd actio!

Parhad ar dudalen 7 >

Cymdeitahs Llantrisant yng Nghwmafan (Parhad)

Roedd rhaid cael coffi bach yn Blancos ac ymweld â bedd Dic Penderyn ym mynwent yr eglwys gyfagos. Cafodd Dic Penderyn ei grogi am wrthryfela dros hawliau gweithwyr ym Merthyr.

Yna i fyny'r cwm yn y bws a chael cwmni gŵr o Bontrhydyfen, sydd yn byw yn Efail Isaf nawr, sef Wil Davies. Roedd ganddo wybodaeth anhygoel o'r ardal. Pasiwyd hen luniau o gwmpas y bws a chlywyd cerddoriaeth gan rai o enwogion yr ardal, tra roeddem yn teithio ....Ivor Emmanuel, Huw Chiswell, Rebecca Evans, Geraint Griffith, Michael Sheen a llawer mwy!

Galwon yng nghapel mawr Y Rock lle cawsom groeso gan dair o'r aelodau sy'n mynychu'r capel hyd heddiw. Dyma hefyd lle priodwyd John a Judith Thomas. Atgofion hapus! Cynhelir oedfaon Cymraeg yn y capel bob Sul, ac roedd Wynford Ellis Owen, oedd ar y trip, wedi siarad yno rywbryd hefyd. Roedd pobl yr ardal wedi ymdrechu i adeiladu gymaint o gapeli hardd yn ystod yr oes ddiwydiannol. Gwelsom Ysgol Gynradd Gymraeg Pontrhydyfen, lle bu Alwyn Samuel yn brifathro, a John Llew yn ddisgybl. Yna edrych ar gartref Richard Burton o ben y Bont Fawr a adeiladwyd yn wreiddiol i gario dŵr. Mae'n debyg mai Dic Bach y Saer oedd enw tad Richard, ac mae ei chwaer yn dal i fyw ym Mhontrhydyfen. Roedd Richard yn 10 fed o 11 o blant.

Yn anffodus caewyd y gweithfeydd dur a chopor ac alcan ar ddechrau'r ugeinfed ganrif a symudwyd y gwaith lawr i Aberafan ac adeiladu tai yn Sandfields lle dechreuodd ein taith.

Yna cael swper cynnar yng ngwesty y Colliers, a gwledd a gawsom yma!.

Diolch yn fawr i John a Gwilym am yr holl waith ymchwil, ac am ein diddanu yr holl ffordd. Diolch hefyd i Wil Davies am ei gyfraniad, ac i'r gyrrwr bws a gafodd lawer o broblemau gyrru a throi mewn ambell le, ond fe lwyddodd yn hollol wyrthiol!

Cofio'r Brodyr Griffiths yng Ngilfach Goch

Dadorchuddiwyd plac yn Evanstown Gilfach Goch i gofio am deulu a sefydlodd siop lyfrau Cymraeg yn Llundain. Comisiynwyd y plac gan Ymddiriedolaeth Rhys Davies ac mae'n cysylltu'r man lle ganwyd y brodyr Griffiths yn 15 Kenry Street â Siop Llyfrau Griff's yn Cecil Court, Charing Cross, Llundain.

Roedd y tŷ yn Kenry Street yn gartref i bedwar brawd, Will, Jos Jack ac Arthur, fu'n gweithio ym mhyllau glo y cwm gyda'u tad, Joseph. Cymraeg oedd iaith y cartref ac roedd y brodyr yn gerddorion talentog ac yn hoff o ddarllen. Roedd y tŷ yn llawn o lyfrau a thrafodaeth a cherddoriaeth Mozart, Handel a Beethoven.

Ym 1946 daeth y brodyr at ei gilydd yn Llundain i sefydlu siop lyfrau Griffs yn 4 Cecil Court. Yn fuan daeth y siop yn gyrchfan i bobl o Gymru oedd yn byw neu'n ymweld â Llundain - Dylan Thomas, Rhys Davies, Richard Burton, Gwyn Jones, Geraint Dyfnallt Owen, Bob Owen Croesor ymhlith eraill.

Roedd Griffs hefyd yn cyhoeddi llyfrau Cymraeg ac yn eu plith mae rhai o glasuron yr iaith. Argraffwyd gweithiau rhai o'n prif lenorion megis T. H. Parry-Williams, cyfieithiad T. Gwynn Jones o Ffawst, ac O Law I Law, T. Towland Hughes.

Dadorchuddiwyd y plac gan Teifion Griffiths, mab i Arthur, un o'r brodyr. Aeth Teifion i fyw i Lundain yn 10 oed ac mae'n cofio dod nôl i Gilfach Goch adeg gwyliau braf yr haf. Cyn ymddeol bu Teifion yn brif-athro Ysgol Teilo Sant, Caerdydd.



Y plac a roddwyd gan Ymddiriedolaeth Rhys Davies

Sam Adams, Gilfach Goch, Teifion Griffiths a Peter Finch ar fore'r dadorchuddio.

Y pedwar brawd, Jos, Will, Jack ac Arthur yn 1946

Ysgol Creigiau

Darcey Bussell
Aeth 21 o ddisgyblion yr ysgol i berfformio mewn Cystadleuaeth Ddawns yn Ysgol Gymunedol Gorllewin Caerdydd ym mis Gorffennaf. Clywsant eu bod wedi llwyddo i gyrraedd y rownd derfynol ym mis Mai eleni. Darcey Bussell, y ddawnswraig enwog, oedd yn trefnu'n digwyddiad. Cafodd y disgyblion gyfle i gwrdd â Darcey a bu rhai'n dawnsio gyda hi ar y llwyfan. Llongyfarchiadau enfawr i bob un ohonynt a diolch i Mrs Tewkesbury am eu hyfforddi.

Llwyddiant Sgïo

Ym mis Gorffennaf aeth tri thîm sgio o'r ysgol i gystadlu yng nghystadleuaeth 'Snowsport' Cymru a gynhaliwyd yng Nghanolfan Sgio Caerdydd.
Perfformiodd y disgyblion yn wych! Llwyddodd un tîm (Ifan, Lily a Harry) i gipio'r safle cyntaf. Cafon ni nifer o enillwyr unigol hefyd:
Ifan (D6) - 1af bechgyn dan 12 (heb gofrestru). Lily (D4) -1af merched dan 10 (wedi cofrestru) - y ferch gyflymaf. Harry (C4) - 2ail bechgyn dan 10 (heb gofrestru).
James (C4) - 3ydd bechgyn dan 10 (heb gofrestru)
Sgiodd Grace, Erin, Elinor, Oscar ac Olaf yn arbennig hefyd - llongyfarchiadau i chi gyd!

Gwibdeithiau Ysgol
Yn ddiweddar mae pob Dosbartth wedi mwynhau gwibdaith haf. Cafodd disgyblion y Feithrinfa a Nursery gyfle i wylio sioe bypedau a chael parti yn neuadd yr ysgol.

Aeth disgyblion y Dosbarth Derbyn a Reception i Barc Margam; aeth Blwyddyn 1 i Gantref yn Aberhonddu; cafodd disgyblion Blwyddyn 2 amser arbennig yn Sw Bryste; aeth disgyblion Blwyddyn 3 i Lynnoedd Cosmeston.

Trip Dosbarth 1

Aeth disgyblion Blwyddyn 4 i Ganolfan Dŵr Gwyn Caerdydd; aeth Blwyddyn 5 i Barc Ffitrwydd Amdani yng Nghaerdydd a threuliodd disgyblion Blwyddyn 6 ddiwrnod gwych yng Nghanolfan Hwylio Caerdydd. Profiadau bythgofiadwy iddynt i gyd.

Gwyddonwyr y Dyfodol

Aeth tri disgybl i Ysgol Plasmawr i gyflwyno eu prosiect Gwyddoniaeth o flaen disgyblion eraill o ysgolion y clwstwr. Wedi cael chwech o gyflwyniadau cyhoedd-wyd mai prosiect Grace, Menna a Nia oedd yn fuddugol - gwych ferched! Gwyddonwyr y dyfodol?

Cwrs Cymorth Cyntaf

Bu disgyblion Blwyddyn 6 yn ffodus iawn o gael Cwrs Cymorth Cyntaf a Chwrs Iaith Arwyddo. Roedd pob un wedi mwynhau'r profiad yn fawr.

Rygbi ar y Traeth

Aeth 52 o ddisgyblion Blwyddyn 4, 5 a 6 i Ynys y Barri i gymryd rhan yng Ngŵyl Rygbi Tag yr Urdd. Cawsant ddiwrnod gwych!

Cyngerdd Gerddorol yr Haf
Yn ystod wythnos olaf y tymor cynhaliwyd noson Gerddorol wych ar iard yr ysgol. Roedd yn ddathliad o dalentau creadigol ein disgyblion. Diolch i Gyfeillion yr Ysgol am drefnu'r noson.

Gwasanaeth Blwyddyn 6
Roedd gwasanaeth ffarwel Blwyddyn 6 yn brofiad emosiynol iawn ar ddiwrnod olaf y tymor. Roedd y neuadd dan ei sang gyda rhieni, neiniau, teidiau a ffrindiau yn mwynhau gwrando ar atgofion y disgyblion o'u hamser yn Ysgol Gynradd Creigiau. Diolch i chi Blwyddyn 6 am fod yn ddisgyblion mor wych.

Arwerthiant Bwrdd Eco

Fffarwelio â Blwyddyn 6
Diolch o galon i Gyfeillion yr Ysgol a'r staff am drefnu Parti Ffarwel bythgofiadwy i ddisgyblion Blwyddyn 6 ar ddiwedd y tymor. Y thema eleni oedd 'Hollywood'. Roedd pob un wrth eu boddau. Dymunwn y gorau i chi gyd yn eich ysgolion uwchradd ym mis Medi.

Bethlehem Gwaelod-y-garth

Trefn yr Oedfaon (ar y Sul am 10:30 a.m. oni nodir yn wahanol)**:**
Mis Medi 2019:
1 – Oedfa Gymun dan ofal y Parchedig Dafydd Owen
8 – Oedfa dan ofal Delwyn Sion
15 – Oedfa dan ofal y Parchedig R Alun Evans
22 – Oedfa dan ofal y Parchedig Gethin Rhys
29 – Oedfa Ddiolchgarwch yr Ysgol Sul
Mis Hydref 2019:
6 – Oedfa Gymun dan ofal Delwyn Sion
13 - Oedfa dan ofal y Parchedig Glyn Tydwal Jones
20 – Oedfa dan ofal y Parchedig Gareth Morgan Jones
27 – Oedfa Sul Adferiad dan ofal Wynford Ellis Owen

ooooOOOOoooo

Mae gen i gyfrifiadur newydd! Dim byd yn hynod yn hynny meddech chi! Wel nagoes wrth reswm, ond o raid nid o ddewis y daeth i'n ty ni.

Tybed ydych chi wedi cael y teimlad yna o ddychwelyd adref gyda thasgau i'w cyflawni, negeseuon i'w hateb, a biliau i'w talu, ac wrth droi at y cyfrifiadur i ymwneud â'r gwahanol ddyletswyddau, sylweddoli bod y cyfan wedi rhewi ac yn gwrthod ymateb i her nag ysgogiad geiriol na gweithred.

Taro pob botwm, taro patrymau o fotymau, diffodd ac yna ail-gynnau, ond dim byd yn tycio. Tynnu'r batri o'i le, a'i ail-osod, a mynd drwy'r broses arferol y bu i mi ei gwneud gannoedd os nad miloedd o weithiau o'r blaen, ond dal i 'styfnigo oedd y cyfaill.

Penderfynnu gadael y cyfan dros nos i weld a fyddai yn gwella ei hun o ba bynnag aflwydd oedd wedi cydio ynddo mor ddi-rybudd.

Codi'n blygeiniol y bore wedyn a sylweddoli bod y creadur yn yr union 'run stad ag oedd o'r noson cynt. Eistedd 'nol a dechrau meddwl o ddifrif be oedd oblygiadau hyn oll ar fy nyletswyddau o ddydd i ddydd? Pryd oedd y tro diwethaf i mi drosglwyddo pethau i le saff i'w cadw rhag amgylchiadau tebyg i'r hyn yr oeddwn yn eu profi ar hyn o bryd? Beth oeddwn yn debygol o'u colli?

Cyfeiriadau, negeseuon, cofnodion, cerddi, hanesion, erthyglau, llythyrau, a lluniau wrth gwrs, wrth y dwsin a mwy.

Eistedd 'nol eto, yn sgil y dadansoddiad uchod, i ystyried ymhellach wir arwyddocad hyn oll, a cheisio darbwyllo fy hun nad oedd pethau mor ddrwg â hynny serch diflaniad rhai o'r pethau rheini y bum yn eu trysori cyhyd. Roeddwn yn sicr y byddai'n bosibl adfer rhai pethau wrth reswm, ond fe olygai, fel engraifft, ail-lunio a chasglu o'r newydd gyfeiriadau rhestr ddosbarthu gwybodaeth i aelodau Bethlehem (yn rhinwedd fy swyddogaeth fel Ysgrifennydd).

Dyfalbarhad amdani felly, ac o ddydd i ddydd am yr wythnos ganlynol, rhwng holi hwnt ac yma, a dilyn cyfarwyddyd, wele lygedyn o obaith yn ymddangos i ymysgwyd mymryn ar gorff a meddwl a oedd yn eitha blinedig a briwedig erbyn hynny. Credais hyd yn oed i mi glywed sibrwd a sisial o rhywle yn fy annog i brynu cyfrifiadur newydd!

A dyna a wnaed ar bnawn Sul heulog o Orffennaf, ond, prysuraf ddweud, hynny wedi i mi fod yn yr oedfa yn y bore! Wedyn, wrth reswm, doedd dim amdani ond dechrau ar y dasg o besgi'r cyfaill newydd hefo'r lluniaeth a ddisgwyliai os oedd o yn ei dro am fod yn ufudd i'm gofynion innau.

Mae yntau a minnau i'w gweld yn tynnu 'mlaen yn go dda ar hyn o bryd, er bod 'na gryn ffordd i fynd hyd nes y bydd ei grombil yn llawn.

'Fel un a aned yng nghesail un o ddyffrynnoedd Eryri, lle 'roedd y mynyddoedd yn gefnlen gadarn, 'rydw i yn gyfarwydd iawn ag adnod gyntaf Salm 121:-

"Dyrchafaf fy llygaid i'r mynyddoedd, o'r lle y daw fy nghymorth.
Fy nghymorth a ddaw oddi wrth yr Arglwydd, yr hwn a wnaeth nefoedd a daear."
[fersiwn Beibl William Morgan]

Ond syndod o'r mwyaf i mi oedd deall bod y Brenin Solomon yn hyddysg mewn materion technegol, ac iddo gynnig cyngor, i mi a'm tebyg, er mwyn osgoi cur pen pan aiff rhywbeth o'i le ar y cyfrifiadur:-
"Mae pobl ddoeth yn storio gwybodaeth,
Ond mae siarad dwl yn dod â dinistr yn agos"
[Diarhebion 10, 14 – fersiwn Beibl.net]

ooooOOOOoooo

Cofiwch y cynhelir Ysgol Sul i'r plant bob Sul heblaw am wyliau Ysgol a hynny i gyd fynd ac amser yr oedfa am 10:30 a.m.

Cofiwch hefyd am wefan Bethlehem - www.bethlehem.cymru

Ymwelwch yn gyson a'r safle i chwi gael y newyddion diweddaraf am hynt a helynt yr eglwys a'i phobl.

Hefyd mae gan Bethlehem gyfri trydar (twitter). Dilynwch ni ar @gwebethlehem.

Evan Fairclough yn Senedd Ieuenctid y Cynulliad

Braint ac anrhydedd oedd bod yn bresennol yn sesiwn gyntaf y Senedd Ieuenctid ar y cyd gyda'r Cynulliad Cenedlaethol gan gynrychioli Pontypridd. Dyma'r tro cyntaf erioed i'r ddwy senedd gwrdd ynghyd a chyd-bleidleisio ac roedd hi wir yn teimlo'n ddigwyddiad hanesyddol gan ddenu tipyn o sylw gan y cyfryngau.

Mi bleidleisiodd y Senedd Ieuenctid a'r Cynulliad o blaid cynnig oedd yn ffurfioli eu bwriad i gyd-weithredu yn y dyfodol er lles pobl ifanc Cymru. Roedd y canlyniad yn unfrydol o blaid hynny.

Teimlais yn falch iawn i fod yn rhan o'r diwrnod hanesyddol yma ac i gael y cyfle i eistedd yn y siambr gyda'r Aelodau Cynulliad gan wrando ar arweinwyr pob un o'r pleidiau gwleidyddol a chynrychiolwyr o'r Senedd Ieuenctid, oedd wedi eu dethol ar hap, wneud areithiau. Roedd hi'n dda i weld y gwleidyddion hŷn yn cydnabod tair blaenoriaeth y Senedd Ieuenctid sef gwastraff plastig, iechyd meddwl, a sgiliau bywyd yn y cwricwlwm.

Mae'r bleidlais yma'n sicrhau nad siop-siarad yw'r Senedd Ieuenctid ac y bydd gwleidyddion yn gwrando ac yn gweithredu ar lais etholedig pobl ifanc Cymru. Da oedd gweld pawb yn gytun ac yn pleidleisio o blaid cynnig; rhywbeth anarferol iawn yn y byd gwleidyddol ar hyn o bryd!

Cefais fy ethol i Senedd Ieuenctid gyntaf erioed Cymru ym mis Tachwedd y llynedd gan bobl ifanc Pontypridd. Ers cael fy ethol, rydw i wedi trafod materion pobl ifanc Pontypridd gyda'r Aelod Cynulliad lleol Mick Antoniw, wedi gwneud araith am yr amgylchedd yn y Senedd, wedi cymryd rhan mewn panel gyda'r Comisiynydd Plant a'r Llywydd, a rydw i wedi areithio yng nghyfarfod llawn o'r Senedd yng Nghaerdydd. Rydw i hefyd wedi ysgrifennu at ein Haelod Seneddol lleol i rannu pryderon pobl ifanc am Brexit.

Mae fy nghynllun gwaith ar gyfer y flwyddyn yn llenwi ond pe fyddech am gysylltu gyda mi i drafod unrhyw beth – boed yn fater sy'n effeithio ar bobl ifanc ai peidio - mae croeso cynnes i chi wneud hynny ac rwy'n addo ymateb. Fy nghyfeiriad ebost yw efanfaircloughpontypridd@gmail.com.

tafod elái

GOLYGYDD
Penri Williams
029 20890040

CYHOEDDUSRWYDD
Colin Williams
029 20890979

Erthyglau a straeon
ar gyfer rhifyn mis Hydref
i gyrraedd erbyn
26 Medi 2019

Y Golygydd
Hendre 4 Pantbach
Pentyrch
CF15 9TG
Ffôn: 029 20890040
e-bost
pentyrch@tafelai.com

Tafod Elái ar y wê
http://www.tafelai.com

Argraffwyr:
EVANPRINT
www.evanprint.co.uk

CYMRAEG
Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru

Gwasanaeth addurno, peintio a phapuro

Andrew Reeves

Gwasanaeth lleol ar gyfer eich cartref neu fusnes

Ffoniwch

Andrew Reeves
01443 407442
neu
07956 024930

I gael pris am unrhyw waith addurno

Swper pen tymor Merched y Wawr Cangen y Garth

Daeth criw bach o ffyddloniaid ynghŷd i fwynhau Swper pen tymor yn y Caesar's nos Fercher, Gorffennaf y 10fed. Dim pwysau, dim pwyllgora, dim ethol swyddogion, dim rhaglen i'w llunio - jyst noson o fwyd da, cyfeillachu a chlonc! Caesar's byth yn siomi! Diolch i Steve am ofalu am y Merched! Byddwn yn ail-gychwyn gyda chyfarfod agoriadol, ar nos Fercher Medi'r 25ain am wyth yr hwyr, yng Nghapel y Tabernacl, Efail Isaf pan gawn ein difyrru gan yr anhygoel, fythol-wyrdd Barti'r Efail! Gwnewch nodyn yn eich dyddiaduron! Byddwch yno - neu byddwch sgwâr! Dowch â ffrind neu ddau i fwynhau! Mae hon yn gychwyn ar flwyddyn o ddathlu i Gangen y Garth - dathlu'r hanner canfed ers ei sefydlu. Nid o dan yr enw yna - ond ym 1970 fe gychwynnwyd Cangen yn yr ardal fu'n cyfarfod yn Y Groesfaen, weithiau Tonteg, weithiau Pentre'r Eglwys neu Bentyrch. Felly mae'n bwysig i ni gynnal y fflam, cynllunio i'r dyfodol a symud ymlaen gyda hyder.

CLWB Y DWRLYN

Noson yng nghwmni Mei Gwynedd

8yh Nos lau Hydref 3ydd yng Nghlwb Rygbi Pentyrch

Manylion: 02920890040



Cymdeithas Wyddonol Cylch Caerdydd

Bu'r ddeufis diwethaf yn fisoedd o gofio a dathlu digwyddiadau gwyddonol, rhai gyda chysylltiadau Cymreig. Ar Fehefin 6ed bu cryn sylw yn y cyfryngau yn nodi 75 blynedd ers glaniad lluoedd Prydain a'r Unol Daleithau ar draethau Normandi – D-Day. Yn ystod un rhaglen holodd cyflwynydd arbenigwr hanes militaraidd a oedd achos teilwng i ddisgrifio'r glaniad fel 'brwydr fwyaf yr Ail Ryfel Byd'. Cyndyn oedd yr arbenigwr i gytuno, gan ychwanegu petai rhaid iddo ddynodi 'brwydr fwyaf' i un ymhlith nifer o helyntion ei ddewis fyddai Brwydr Prydain yn 1940. Y ffactor amlycaf yn y gwrthdaro hwnnw oedd bod RADAR gan awyrennau Prydain. Ac i bwy roedd y diolch am hynny? EDWARD GEORGE BOWEN o Abertawe (1911 - 1991). Hyd heddiw mae Bowen yn cael ei gydnabod yn rhyngwladol fel 'The Father of Airborne RADAR'.

Ar Orffennaf 20 bu dathlu mawr i nodi hanner canmlynedd ers glanio dyn ar Y Lleuad. Yn amlwg iawn yn holl weithgaredd y fenter ryfeddol, y cynllunio a'r rheoli, oedd Tecwyn (Tec) Roberts (1925 – 1988) a fagwyd ac addysgwyd ar Ynys Môn. Cafwyd dwy raglen deledu yn ddiweddar yn olrhain hanes gyrfa Roberts, athrylith yn wir ym maes aerodynameg, ond un na fu llawer o sylw dyledus iddo dros y blynyddoedd. Wrth i ddathliad y glanio gael ei nodi ar y teledu gwelwyd lluniau o Neil Armstrond yn camu i'r Lleuad gyda'r datganiad am gam bach i ddyn ond naid fawr i ddynoliaeth. Yr hyn nad oedd yn hysbys i lawer oedd bod y lluniau wedi dod o delesgop-radio yn Awstralia – Telesgop Parkes. Pwy a chwareuodd ran allweddol yn natblygiad y telesgop? EDWARD GEORGE BOWEN o Abertawe.

Bu llawer o holi ynghylch y fenter i anfon dynion i'r Lleuad: sut mae cloriannu gwyrth a gwerth? Yn ddiweddar darllenais lythyr yn The Times (20 Gorffennaf), gyda'r pennawd 'Apollo's legacy on world food safety'. Yr awdur yw'r Athro Hugh Pennington, bacteriolegydd o Brifysgol Aberdeen, arbenigwr uchel ei barch. Bwrdwn ei lythyr yw, o ystyried amryw agweddau ar etifeddiaeth y fenter, yn bennaf mae'n gosod y cynlluniau parthed diogelwch bwyd gan NASA, i atal salwch dolur rhydd ymhlith y gofodwyr. Mae'r datblygiau hyn yn awr yn sail i holl reoliadau diogelwch bwyd ledled y byd.

Yn nhridegau y ganrif ddiwethaf gyda radio yn datblygu, roedd gormes Llundain, ym mherson Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, John Reith, yn peri blinder mawr i ranbarthau Prydain. Mewn perthynas â Chymru dadleuodd Reith fod mynyddoedd Cymru yn rhwystr i donnau radio; doedd dim modd goresgyn y rhwystr. Ond daeth ffisegydd disglair i lorio'r ddadl honno? Pwy? Dyfalwch! Un o blant Abertawe!

Neville Evans

Ysgol Tonyrefail

Bro Garwr
Llongyfarchiadau anferthol i Mr Hughes sydd wedi dod yn gyntaf yng nghystadleuaeth Bro Garwr, Cyngor Rhondda Cynon Taf yn y categori: Pencampwr Amgylcheddol i Athrawon. Mae wedi ennill y wobr am ei waith arbennig gyda Cyngor Eco yr ysgol. Rydym yn hynod falch o'i lwyddiant arbennig.

Baner Werdd
Rhaid llongyfarch y Cyngor Eco ar eu gwaith caled yn arwain yr ysgol yn eu hymgyrch i sicrhau ail Faner Werdd i'r ysgol. Ardderchog bawb!

Ein Milltir Sgwâr
Daeth grŵp o ddisgyblion Bl5 yn ail am eu cyflwyniad 'Ein Milltir Sgwâr' fel rhan o waith clwstwr Ysgol Llanhari. Llongyfarchiadau mawr iddynt ac i'r 3 grŵp arall yn y dosbarth am eu gwaith campus. Gwaith gwych gan bawb!

Ffarwelio â Blwyddyn 6
Pob lwc i ddisgyblion Blwyddyn 6 yn eu hysgol newydd ym mis Medi. Cafwyd nifer o ddigwyddiadau i ffarwelio â'r plant: gwasanaeth yn Eglwys Dewi Sant i holl ddisgyblion Blwyddyn 6 ardal Tonyrefail, sesiwn Bowlio Deg, parti ffarwelio a gwasanaeth yn yr ysgol! Bydd chwith ar eu holau!

Play Makers
Mae 20 o ddisgyblion Bl 5 a 6 wedi bod wrthi yn brysur o dan arweinyddiaeth 'Chwaraeon RhCT' yn dysgu sgiliau - arwain chwarae plant. Bydd y gemau a ddysgwyd ganddynt yn cael eu rhannu â holl ddisgyblion yr ysgol. Llongyfarchiadau i'r disgyblion ar gyflawni'r cwrs yn llwyddiannus.

Merch fach
Llongyfarchiadau gwresog i Mrs Withey a'i gŵr ar enedigaeth eu merch fach Ruby. Roedd plant y dosbarth Derbyn wrth eu boddau pan ddaeth y ddwy i'r ysgol i ddweud helo.

Ffarwelio
Mae pawb yn yr ysgol yn dymuno pob lwc i Mrs Delyth Welsh yn ei swydd newydd yn Ysgol Llanhari. Mi fydd pawb yn yr ysgol yn gweld ei heisiau yn arw.

Sioeau yr Adran Iau
Aeth disgyblion Bl3 a 4 â ni 'O Dan y Dŵr' yn ystod eu sioe diwedd tymor. Roedd y sioe hwyliog yn seiliedig ar waith y tymor ar ailgylchu a llygredd plastig yn y moroedd. Gofalu am y blaned oedd thema sioe diwedd tymor Bl5 a 6 yn ogystal. Cafwyd llawer o hwyl wrth ddysgu am bwysigrwydd gofalu am y Ddaear. Diolch yn fawr i Theatr Y Savoy am wneud y profiad yn un arbennig i'r holl ddisgyblion.

Sioe Bl 5 a 6

Mabolgampau
Braf iawn oedd gallu cynnal ein mabolgampau ar dir yr ysgol am y tro cyntaf eleni. Ar ôl gohirio sawl gwaith oherwydd y glaw cafwyd dyddiau heulog i gynnal y diwrnod athletau! Roedd y cystadlu yn hynod frwd.

Tripiau Haf
Trefnwyd ystod o dripiau ar ddiwedd y tymor i ddiolch i'r disgyblion am eu gwaith caled drwy'r flwyddyn. Fe aeth Blwyddyn 5 a 6 i Heatherton, Blwyddyn 3 a 4 i Acwariwm Bryste, Blwyddyn 1 a 2 I Sŵ Arch Noa a phlant y dosbarth Derbyn a Meithrin i Barti y Tedis ym Mharc Ynys Angharad.

Trosglwyddo
Roedd Blwyddyn 5 wedi mwynhau yn fawr cymryd rhan yng Ngŵyl Hwyl yr Urdd fel rhan o gynllun trosglwyddo clwstwr Llanhari. Roedd Bl6 wedi cymryd rhan mewn diwrnod chwaraeon yn ogystal.

Barbiciw
Diolch yn fawr i'r Gymdeithas Rieni am drefnu Barbiciw yn llawn gemau a gweithgareddau hwyliog. Casglwyd £400 tuag at brynu offer i'r ardal allanol.

EISTEDDFOD CYMOEDD
18 Hydref 2019
Campws y Gwyndy, Caerffili
www.eisteddfodycymoedd.cymru

Ysgol Gwaelod y Garth

Pob lwc i Flwyddyn 6 Ysgol Gwaelod y Garth School yn eu hysgolion uwchradd. Diolch yn fawr am fod mor eiddgar, brwdfrydig, awyddus a chwrtais ymhob agwedd o fywyd Ysgol Gwaelod y Garth.

Dymuniadau Gorau

Fe fydd Mr Eirian Williams yn ymddeol ar ddiwedd y tymor ar ôl 29 mlynedd fel dirprwy yn yr ysgol. Hoffwn ddiolch yn fawr iddo, ar ran cymuned Ysgol Gwaelod y Garth, am ei sefydlogrwydd cadarn, ei arweiniad trylwyr a'i gefnogaeth gyson.

Mae Mrs Sarah Jones hefyd yn ein gadael i fod yn Bennaeth Mewn Gofal yn Ysgol Bro Eirwg. Hoffwn ddiolch yn fawr iddi am fod yn arweinydd ysgogol, brwdfrydig ac egnïol ac yn ffrind i holl gymuned yr ysgol.

Mae Mr Williams a Mrs Jones wedi llwyddo i sbarduno, ysbrydoli ac ysgogi cannoedd o blant Gwaelod dros y blynyddoedd a dymunwn yn dda iddynt. Cofiwch i ddod nôl i'n gweld!

Hefyd mae aelodau o'n staff cynorthwyol yn symud ymlaen i gychwyn penawdau newydd yn eu bywydau. Fe fydd Mrs Ann Hughes yn ymddeol, a Mrs Catrin Hobbs a Mrs Marie Harding yn symud ymlaen i ysgolion eraill. Hoffwn ddiolch yn fawr iddyn nhw am eu cefnogaeth frwd ac am eu cyfraniad positif a gweithgar ar lawr a thu allan i'r dosbarth. Maent wedi bod yn ganolog i ddatblygiad nifer o ddisgyblion ar lawr y dosbarth gan estyn cymorth i athrawon gyda'u hagwedd bositif, weithgar. Mi fyddwn yn gweld eich eisiau, diolch yn fawr ichi gyd am eich cyfraniad.

Yn ystod Tafwyl cymrodd yr ysgol rhan mewn gorymdaith oedd yn dathlu 70 mlynedd o addysg Gymraeg yng Nghaerdydd. Diolch yn fawr i'r rhai ohonoch chi a orymdeithiodd gyda ni - roedd yn ddigwyddiad cyffrous, ysgogol a orffennodd gyda rhai o blant Gwaelod yn canu can arbennig a ysgrifennodd Blwyddyn 5 a 6 clwstwr Plasmawr gyda Mei Gwynedd. Gwych! Diolch yn fawr i blant y Derbyn, Bl 1 a 2 am berfformio mor arbennig yn Tafwyl - roedd yn blesesr eich gweld yn perffomio gyda gwen ar wyneb bob un ohonoch chi

Mae'r Feithrin wedi cael diwedd prysur i'r flwyddyn. Cafon ni Ddiwrnod Hwyl a Sbri bendigedig gan cynnal chwaraeon gwahanol a gemau rasio a pharashiwt. Aethon ni ar daith i Sain Ffagan. Uchafbwynt y trip oedd y daith ar y bws a bwyta cinio!! Roedd sawl plentyn blinedig iawn ar y daith nôl!!

I goroni'r cyfan, cyfle i rieni ymuno gyda ni i ganu a dawnsio! Cawson ni hefyd Barbeciw yn yr haf. Roedd yn ddiwrnod hyfryd o gymdeithasu a chyfle i rieni a phlant o'r bore a phrynhawn gwrdd â'i gilydd.

Diolch yn fawr i aelodau o Sefydliad y Merched, Gwaelod y Garth am eu gwaith caled dros y flwyddyn diwethaf. Unwaith eto maent wedi dysgu sgiliau gwinio, gwau a choginio i blant Blwyddyn 5. Mae'r plant wedi cael profiadau gwerthfawr iawn. I orffen y flwyddyn, aethon nhw ar drip i Cosmeston ac i Bopty Asda i weld bara yn cael ei bobi.

"Ein hoff bethau ni oedd coginio a chreu addurniadau Nadolig," meddai Mali ac Alys.

Mae Blwyddyn 3 wedi cael tymor prysur unwaith eto ac rydyn ni wedi bod yn gweithio'n galed tu hwnt. Rydym ni ym Mlwyddyn 3 wedi bod yn ffodus iawn i gael gwersi Nofio yng Nghanolfan Hamdden Y Tyllgoed. Aethom dros gyfnod o bythefnos a hoffai pawb ym Mlwyddyn 3 ddiolch i'r staff am ein dysgu a datblygu ein sgiliau Nofio.

Mae ein Dreigiau Doeth wedi llwyddo i arwain yr ysgol mor arbennig i ennill Gwobr Arian y Siarter Iaith. Rydym wrth ein bodd. Diolch yn fawr i bawb yn yr ysgol am eu cefnogaeth.

Digwyddiad arall cyffrous yn ystod y tymor oedd gwersi Ysgol y Goedwig gyda Mrs Elsaraag. Roedd cael dysgu a chwarae yn y goedwig yn brofiad arbennig a chawsom lawer o hwyl yn archwilio a dysgu am fyd natur. Diolch yn fawr i Mrs Elsaraag, y rhieni a'r staff am y profiad bythgofiadwy.

Uchafbwynt diwedd y tymor oedd cael coginio ein Pitsas. Llwyddom i greu toes bara gyda help Mr Owen a Mrs Hobbs. Roedd rhaid addurno ein Pitsas gyda saws tomato a topins a sicrhau fod y Pitsas yn cael digon o amser yn y ffwrn. Cafodd pawb y cyfle i greu Pitsa a'u bwyta'r noson honno. Roeddynt yn flasus tu hwnt!

Ysgol Llanhari

Ffarwelio â'r adran gynradd
Bu diwedd y tymor yn amser nodedig yn hanes yr ysgol gyda'r criw cyntaf o ddisgyblion yn trosglwyddo o'r adran gynradd i'r adran uwchradd. Cafwyd sioe arbennig ar nos Iau olaf y tymor yn llond atgofion y disgyblion o'u hamser yn yr adran gynradd. Roedd y disgyblion yn amlwg wrth eu bodd yn perfformio ac fe wnaed y cyfan yn raenus ac i safon uchel iawn. Diolch i'r staff ac yn arbennig i Mr James am eu harwain a'u hyfforddi. Bydd croeso mawr i Oliver, Ffion, Molly, Iestyn a Carlos ynghyd â gweddill disgyblion y clwstwr ym mis Medi.

Prif swyddogion 2019-20
Llongyfarchiadau mawr i Joseff Kirkman ac Elan Booth ar gael eu penodi yn brif swyddogion ar gyfer y flwyddyn nesaf. Eu dirprwyon yw Ben McDonald, Heather Hoolahan a Lowri Morris. Bydd y tri ohonynt yn cynorthwyo Elan a Joseff ac yn arwain ar brosiectau penodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Rydym yn edrych ymlaen yn barod!

Mabolgampau
Cynhaliwyd mabolgampau yn yr adrannau cynradd ac uwchradd unwaith eto eleni ar dir yr ysgol. Profodd Trisant eleni eu bod llond cystal ym myd y mabolgampau ac ydyn nhw wrth gystadlu yn yr Eisteddfod gan mai nhw enillodd fabolgampau CA2 a'r adran uwchradd. Da iawn chi!

Prosiect Ein Milltir Sgwâr
Bu disgyblion bl5 y clwstwr yn gweithio ar brosiect cwricwlaidd Fy Milltir Sgwar yn ystod y tymor a phenllanw y gwaith oedd cynnal arddangosfa yn Neuadd Ysgol Llanhari ychydig cyn diwedd y tymor lle bu cyfle i bawb ddysgu am filltir sgwâr ysgolion eraill y clwstwr. Diolch i bawb am eu hymdrechion.

Parti Ponty
Bu rhai o'r disgylbion ddigon ffodus eleni eto i fynychu gweithdy cyfansoddi gyda Mei Gwynedd. Tipyn o fraint oedd cael perfformio y gân yn y gig yng Nghlwb y Bont yn ystod Parti Ponty.

Gŵyl Hwyl yr Urdd
Cynahliwyd gŵyl hwyl i ddisgyblion blwyddyn 5 y clwstwr ar ddechrau mis Gorffennaf. Hyfryd oedd croesawu y disgyblion i Lanhari am y tro cyntaf fel blwyddyn a diolch i'r Urdd am drefnu ac i ddisgyblion blwyddyn 10 am eu cymorth.

Diwrnod Dinesydd Da
Diolch i Mr Pari am drefnu diwrnod dinesydd da ar ddiwedd tymor yr Haf. Gwahoddwyd cynghorwyr i'r ysgol i drafod eu profiad o fod yn gynghorwyr cymunedol a sirol ac fe ddysgwyd llawer o wrando arnynt a wedyn wrth i'r disgyblion fynd ati i lunio ymgyrch I wella'u cymuned.

Teithiau a gwibdeithiau
Bu mis Gorffennaf yn hynod brysur o ran teithiau. Teithwyd ymhell ac agos yn mwynhau atyniadau a'r awyr agored tra'n cymdeithasu â ffrindiau

Brwydr y Bandiau
Mae Brwydr y Bandiau wedi hen sefydlu yn yr adran uwchradd o dan arweiniad Miss Phillips ac fe gafwyd cystadleuaeth frwd arall eleni ymysg disgyblion blwyddyn 7. Llongyfarchiadau mawr i'r grwp buddugol, Gollwng y Curiad!

Gwobrwyo Presenoldeb
Mae presenoldeb disgyblion Llanhari yn gyson gyda'r gorau yn y Sir ac yn ystod y tymor gwobrwywyd Dosbarth Barcud am yr ail dro eleni am fod â'r presenoldeb gorau. Ar ddiwedd y tymor, mwynhaodd yr holl ddisgyblion oedd â phresenoldeb 100% ers mis Medi pizza yr un amser cinio!

Parhad ar dudalen 16 >

Ysgol Gyfun Garth Olwg

Parti Ponty
Cafodd un o ddyddiau Parti Ponty ei gynnal eleni yng Ngarth Olwg ac roedd hi'n ddiwrnod gwych gyda'r haul yn tywynnu.

Bu'r disgyblion yn brysur yn yr ysgol yn ystod yr wythnos yn arwain at Parti Ponty gyda Mei Gwynedd yn cyfansoddi cân gyda chriw o ddisgyblion, Technocamps yn dysgu'r disgyblion am wyddoniaeth a'r 6ed sy'n astudio Celf yn creu arwyddion. Roedd hi'n braf gweld y disgyblion yn gwirfoddoli'n frwd gyda'r amrywiaeth o weithgareddau

oedd yn cael eu cynnig ar y diwrnod a chafodd y gynulleidfa eu diddanu gan Gôr y Clwstwr. Perfformiodd band newydd yr ysgol ei gig cyntaf yng Nghlwb y Bont hefyd – profiad rwy'n siwr y gwnawn nhw ei drysori.

Taith yr Adran Saesneg i Wŷl y Gelli

Yn dilyn llwyddiant ymweliadau blaenorol â Gŵyl y Gelli, roedd yr adran Saesneg yn lwcus i allu mynd â'n ieithwyr mwyaf dawnus ym Mlwyddyn 8 i un o'r gwyliau llyfrau mwyaf yn y byd ar ddydd Gwener 24ain Mai. Cawsom ein diddanu trwy gydol y dydd gan rai o enwau mwyaf llenyddiaeth plant gan gynnwys: David Baddiel, Ade Adepitan, Alex Wheatle ac Amy Lamé. Mwynhaodd y disgyblion hufen ia a chawsant gyfle i brynu llyfrau - llwyddodd un disgybl brynu 5 llyfr am ddim ond £10! Roedd hi'n ddiwrnod gwych ac rydym yn edrych ymlaen at y flwyddyn nesaf yn barod.

Eisteddfod yr Ysgol
Bu'r cystadlu'n frwd eleni eto ac roedd popeth a oedd ar y llwyfan yn safonol iawn.

Llongyfarchiadau i Lys Hywel ar ennill yr Eisteddfod ac i Chloe Stacey Blwyddyn 12 ar ennill y gadair hŷn ac i Greta Hall Williams Blwyddyn 8 ar ennill y gadair iau gyda cherddi arbennig o dda. Diolch i Eleri Roberts ac i Leon Welsby am feirniadu ar y diwrnod ac i Cynan Llwyd am feirniadu'r gwaith llenyddol.

Mabolgampau
Bu'r Mabolgampau ar ddiwedd y tymor a chafwyd diwrnod braf iawn yn Lecwydd. Llongyfarchiadau i Lys Owain am ennill y Mabolgampau.

Y pencampwyr oedd Kara Bennett a Joseph Edwards o Flwyddyn 7; Rhianna Bryant a Steffan Emanuel o Flwyddyn 8; Megan Bowen a Mabon Rhys o Flwyddyn 9; Lara Watts ac Oshain Bengough o Flwyddyn 10

Ymweliad Ifaciwi
Fe ddaeth Barbra James atom ni i'r ysgol i rannu ei phrofiadau hi fel ifaciwi yn ddiweddar. Mae Blwyddyn 7 wedi bod yn astudio hanes y rhyfel ac effaith y rhyfel ar blant a theuluoedd yr ifaciwis. Cafodd y disgyblion y cyfle i ofyn cwestiynau amrywiol iddi. Roedd hi'n brynhawn hwylus a diddorol dros ben wrth glywed sut roedd yn rhaid iddi fynd i guddio dan ddaear rhag y

bomiau a sut y symudodd hi i Gymru am ddiogelwch.

Taith y Pwyllgor Eco
Yn sgil llwyddiant yr wythnos ddyfodol lwyddiannus yn yr ysgol a oedd yn canolbwyntio ar ailgylch trefnwyd taith ar hyd llwybr Taf lleol er mwyn ehangu profiadau ac ymwybyddiaeth o gyfrifoldebau amgylcheddol disgyblion tu hwnt i dir yr ysgol. Ymunodd disgyblion o flwyddyn 8 a 9 ag aelodau'r Pwyllgor Eco'r ysgol i godi sbwriel ar hyd y llwybr gan ddangos cyfrifoldeb clir dros eu hamgylchedd lleol. Hoffwn ddiolch i'r cyngor lleol am eu cefnogaeth i ddarparu adnoddau i gadw disgyblion Garth Olwg yn ddiogel ac edrychwn ymlaen at gydweithio eto. Mae'r profiad yn un gwerthfawr tu hwnt ac mae'r disgyblion yn edrych ymlaen i'r cyfle nesaf.

Sbec mewn Suitcase
Bu Blwyddyn 12 Cemeg yn rhan o weithdy a drefnwyd gan Brifysgol De Cymru sef 'Spec in a Suitcase' ar ddiwedd tymor prysur. Gweithdy oedd hwn a oedd yn rhoi'r cyfle iddynt ymarfer sgiliau dadansoddi a dysgu rhai newydd a fydd yn angenrheidol ar gyfer gwaith Blwyddyn 13. Gwnaeth pawb fwynhau'r sesiwn ac roeddent wedi llwyr ymroi i'r dasg er mwyn adnabod y cemegion anhysbys. Diolch yn fawr i Dr Suzanna Kean a'i thîm am roi'r cyfle yma i ni.



Disgyblion yn cael eu gwobrwyo gan y sir

Llongyfarchiadau i Ffion Haf Harris, Blwyddyn 9 ar dderbyn ei gwobr yn seremoni Mynychu a Chyflawni Rhondda Cynon Taf aci Iwan Smith, Blwyddyn 11 ar ei wobr yn seremoni Carfan Cyflogaeth, Addysg a Hyfforddiant y sir. Da iawn chi, rydym yn falch iawn ohonoch.

Llwyddiannau Chwaraeon

Llongyfarchiadau i Dylan Widdison o Flwyddyn 8 a ddaeth yn 3ydd yng nghystadleuaeth cartio IKR Cymru.

Llongyfarchiadau mawr i Joey Jones, Blwyddyn 9 a gystadlodd yng nghystadleuaeth sgiliau deifio cenedlaethol Prydain yn Plymouth. Enillodd y fedal aur yn ei gategori oedran yn erbyn 19 o ddeifwyr eraill o Loegr, Iwerddon a Dubai!

Llongyfarchiadau i Callum Nicholls, Blwyddyn 10 sydd wedi'i ddewis i chwarae criced dros De Orllewin Lloegr yn y garfan dan 15.

Bonjour Boulogne

Er mwyn dathlu blwyddyn lawn o ddysgu Ffrangeg, aeth 50 o ddisgyblion blwyddyn 7 allan i Boulogne er mwyn ymarfer yr iaith yr oeddent wedi ei dysgu. Gadawom am ddeg o'r gloch ar nos Sadwrn o Nantgarw – her oedd ceisio cysgu ar y bws dros nos gyda chymaint o gyffro! Ar ôl deuddeg awr o deithio, gan gynnwys mynd o

dan y môr ar yr EuroTunnel, cyrhaeddom barc Asterix.

Cawsom ddiwrnod i'r brenin ym Mharc Asterix. Roedd reidiau o bob maint gwahanol gan gynnwys *roller coasters* a reids dŵr. Roedd hyd yn oed yr athrawon wedi ymuno yn yr hwyl ac wedi mynd ar y *roller coaster* enfawr glas. Yn dilyn diwrnod blinedig yn y parc thema, cawsom fwyd bendigedig mewn bwyty Eidaleg gan fwyta allan yn yr haul.

Dechreuodd yr ail ddiwrnod gyda brecwast traddodiadol Ffrengig o *croissants* a *baguettes*. Ar y ffordd mewn i Boulogne, ymwelon ni â mynwent filwrol. Rhoddodd

Ysgol Gynradd Garth Olwg

Pêl-droed

Llongyfarchiadau i Ioan Leyshon a Jaxon Humphreys am gael eu cynnwys yng ngharfan pêl droed RhCT y tymor nesaf.

Parti Ponty

Dyma blant y côr yn perfformio ym Mharti Ponty heddiw am y tro olaf fel côr Ysgol Gynradd Gymraeg Garth Olwg. Roeddech chi'n wych fel arfer! Diolch yn fawr i chi am gynrychioli'r ysgol ar hyd y blynyddoedd a diolch hefyd i Mrs. Howard a Mrs.Rogers am eich hyfforddi!

Llangollen

Cafodd y Côr a'r ensemble brofiad bythgofiadwy yn Eisteddfod Llangollen yn ddiweddar. Mwynheuodd pawb y profiad o berfformio, yn enwedig yr Ensemble lleisiol, a ddaeth yn gyntaf. Llongyfarchiadau mawr iddynt, a diolch I Mrs Howard am eu hyfforddi!

Miss Higgins gefndir y rhyfel i bawb ac roedd pawb wedi talu teyrnged. Gorffennon ni'r dydd gyda chystadlu brwd yn y bowlio deg. Roedd y daith yn werth chweil a hoffai Mr Parry ddiolch i bawb am eu cyd-weithrediad.

Rhedeg i Baris

Aeth cymysgedd o ddisgyblion o flynyddoedd 9, 10 a 12 i Baris. Treuliom y dydd cyntaf yn Disneyland Paris. Roeddem wedi blino wrth i ni gyrraedd y parc am ddeg o'r gloch y bore ar ôl teithio dros nos ar fws. Ond, roedd pawb yn hynod gyffrous. Treuliom y dydd yn mynd ar bob math o reidiau, gwylio sioeau a chyfarfod â chymeriadau enwog Disney megis Mickey Mouse. Uchafbwynt y dydd oedd y sioe tân

gwyllt arbennig a ddigwyddodd am 11 o'r gloch wedi i'r parc gau. Roedd hi wedi hanner nos ar bawb yn mynd i'r gwely.

Ar yr ail ddydd, aethom i ganol Paris. Teithiom heibio eglwys gadeiriol *Notre Dame* cyn mynd am yr afon *Seine*. Hwyliom lawr yr afon gan weld nifer o brif atyniadau Paris. Yna aethom at y Tŵr Eiffel er mwyn tynnu lluniau cyn mynd i'r *Arc de Triomphe*. Roedd y nifer o risiau oedd angen eu dringo yn ddychrynllyd, ond roedd y golygfeydd dros Baris yn fythgofiadwy. Siopa oedd y bwriad wedyn gydag amser rhydd ar yr *Champs Élysées*, gyda nifer o ferched yn gwario eu hewros yn Sephora. Gyda'r nos, bwyton mewn bwyty Ffrengig yn ardal *Montmartre*.

Parhad ar dudalen 16 >

Yr Ensemble

Y Côr

Mabolgampau'r Cyfnod Sylfaen

Cafodd plant y Cyfnod Sylfaen Fabolgampau llwyddiannus iawn ar ddechrau'r mis. Diolch i'r staff am drefnu ac i'r holl rieni a ddaeth i gefnogi.

Gwasanaeth Gadael

Cafwyd gwasanaeth emosiynol yng Ngarth Olwg ar ddiwrnod olaf y tymor. Gan fod yr ysgol yn cau, ffarweliwyd a nifer o ddisgyblion ac athrawon - ond yn bennaf, i Mrs Bode. Bydd Helen yn golled mawr i ni i gyd: staff, llywodraethwyr a rhieni, ond yn bwysicach fyth, y plant. Dymunwn bob hapusrwydd i Helen yn ei hymddeoliad cynnar a phob llwyddiant ar gyfer y dyfodol.

Ysgol Llanhari (Parhad)

Siarter Iaith – ennill yr arian!
Llongyfarchiadau mawr iawn i'r adran gynradd sydd wedi llwyddo i ennill statws arian yn ystod mis Gorffennaf. Canmolwyd gwaith yr adran a'r disgyblion yn benodol gan y ddau ddilysydd a ymwelodd â Llanhari. Rydym yn edrych ymlaen nawr at ddatblygu'r siarter Iaith yn yr adran uwchradd. Diolch i Miss Williams am gyd-lynu'r holl waith yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Glanllyn 2019
Teithiodd disgyblion bl9 a 10 i Lanllyn ar ddechrau mis Gorffennaf a mwynhau penwythnos hir yn y gwersyll. Bu'n ymweliad llwyddiannus iawn a diolch i'r staff a fu'n gofalu am y disgyblion.

Acapela
Codi hwyl cyn Cwpan y Byd
8.00 nos Iau 26 Medi
- pizzas o 6.00 ymlaen
£10
CÔR MEIBION TAF
& CATRIN HERBERT

Tocynnau:- Tel: 02920 890862 Email: info@acapela.co.uk

Ysgol Garth Olwg (Parhad)

Ar ein dydd olaf aethom i ymweld â becws ar y ffordd. Cawsom gyfle i rolio *croissaint* a chwarae gyda thoes sy'n creu bara. Uchafbwynt yr ymweliad oedd y pobydd dychrynllyd! Unwaith eto, hoffai Mr Parry ddiolch i bawb am yr hwyl a'r cyd-weithrediad.

Taith i Ogledd Cymru
Ym mis Mehefin, teithiodd grŵp o ddisgyblion o Flwyddyn 11 ar daith ysgol i Ogledd Cymru. Pwrpas y daith oedd ymweld â llefydd hanesyddol Cymreig sydd yn aml yn ymddangos yn ein gwersi hanes a llenyddiaeth Gymraeg ond nad ydym yn cael y cyfle i'w profi yn ein bywydau go iawn.

Buddiol a diddorol oedd ymweld â chymunedau'r gogledd oedd yn siarad Cymraeg yn bennaf. Gwelon ni'r iaith yn cael ei defnyddio yn naturiol mewn pob agwedd o fywyd a phob rhan o gymdeithas. Ymwelon ni â rhai o lefydd mwyaf prydferth, hanesyddol, a hwyliog Cymru. Fe aethon ni i ymweld â llefydd hanesyddol megis Senedd Owain Glyndŵr ym Machynlleth, Cilmeri, Tryweryn, Yr Ysgwrn a bedd Gelert ym Meddgelert. Fe ymwelon ni â rhai o lefydd mwyaf prydferth ein gwlad gan gynnwys Nant Gwrtheyrn a thraeth Porthdinllaen. Yn ogystal, cawsom hwyl yn y parc trampolîn 'Bounce Below' a thraeth Niwbwrch.

Fe wnaethon ni aros yn hen gartref y bardd T.H. Parry Williams, Tŷ'r Ysgol, Rhyd Ddu, sydd nawr yn llety ieuenctid. Roedd aros yng nghanol y mynyddoedd yn agos at gymuned Gymreig yn hwyl a buddiol iawn. Roedd y daith yn un hwylus iawn, yn enwedig gan ein bod ni newydd orffen ein harholiadau TGAU ac roedd hi'n gyfle gwych i ymlacio, cael hwyl gyda ffrindiau, ac ymweld â'r llefydd rydym wedi bod yn dysgu amdanyn nhw yn ystod ein gyrfa ysgol. Diolch i Miss Mair am drefnu a chynnal y daith ac i Mr Porter am ein cludo ni o gwmpas y Gogledd. Gan Efan Fairclough, Bl 11.